# Cofnodion cyfarfod 3/2/22

**Presennol:** Y Maer Rhys Evans, Y Dirprwy Faer Sharon Evans, Dilys Evans, Elin Hedd (*dros Zoom*), Eluned Jones, Tony Parry, Alun Price (*dros Zoom*), Eifion Roberts Heledd Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd ), Lis Puw *(Clerc)*.

**Ymddiheuriadau:** Ivora Jones

**Cyflwyniad Andrew Basford, Cyfoeth Naturiol Cymru** (*trwy gyfrwng Zoom):*

**E**glurodd y gwaith i gryfhau arglawdd Llyn Tegid hyd yn hyn, a'r mesurau diogelwch. Mae'r gwaith trawiadol o dorri coed ar gyfer diogelu'r arglawdd wedi ei wneud a dywedodd y byddai 3 coeden yn cael eu plannu am bob un a dorrwyd. Bydd y gwaith o blannu yn dechrau mis nesaf a derbyniodd awgrym Eifion Roberts y byddai'n fuddiol cynnwys plant ysgol yn y broses os yn bosib. Eglurodd y bydd rhaid cau'r llwybrau am gyfnod, ond yn y dyfodol pan fydd un hanner o lwybr yr afon ar gau fe fydd yr hanner arall ar agor tra bod gwaith yn cael ei wneud. Bydd 6 bwrdd gwybodaeth yn cael eu codi i egluro'r gwaith. Diolchwyd yn fawr iddo am ei gyflwyniad ac am arddangos lluniau a chynlluniau.

Dewiswyd grŵp i gyfarfod i nodi lleoliadau 6 mainc: Carol Rowlands, Eluned Jones, Tony Parry, Eifion Roberts

1. **Croesawyd pawb gan y Maer, O Rhys Evans**
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 6/1/22 a chyfarfod arbennig 13/1/22.
4. **Materion y Clerc:**

    i. Cynllun Ardal Cadwraeth Tref Y Bala – bydd Mari Beynon Owain yn rhoi cyflwyniad i'r Cyngor yng nghyfarfod 3/3/22.

    ii. Ymatebodd Branwen Haf ar fater cyflwyniad i'r Cyngor fod y disgyblion yn brysur ar hyn o bryd gyda chyflwyniad "Grease" ond y bydd yn cysylltu gyda'r Cyngor pan ddaw dyddiad yn rhydd.

    iii. Twristiaeth Cynaliadwy – cyflwynodd y Clerc adroddiad o gynhadledd diweddar o dan arweiniad Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri sydd yn paratoi Cynllun Twristiaeth Cynaliadwy. Cafodd y cyfle i awgrymu fod angen person proffesiynol i gydlynu prosiectau a gwarchod diwylliant ac economi leol Penllyn.

iv. Arwyddion wedi troi: ni chafwyd ymateb eto o Gyngor Gwynedd, ac addawodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan i geisio cael ymateb gan swyddogion.

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd. Mae wedi bod yn ymdrin â llawer o faterion lleol yn ddiweddar. Mae'r trafodaethau am Ysgol Bro Tegid a Neuadd Buddug yn parhau. Mae'n ymwneud a phrosiect gwella palmentydd yn ardal Cae Croes. Byddai'n hoffi gweld baneri fyny tu allan i siopau cyn Gŵyl Ddewi. Addawodd Heledd Roberts fynd a'r neges i'r Grŵp Siopau. Atebodd efallai mai tai cymdeithasol fydd ar safle'r hen ysgol os oes galw lleol amdanynt. Ni fydd adeiladu ar hen gae chwarae'r ysgol. Mae'n fwriad gan Gyngor Gwynedd i estyn cymorth gyda thai ac mae cyfle i Bartneriaeth Penllyn roi cyfle i'r deilydd portffolio esbonio'r cymorth sydd ar gael.

   Tynnwyd ei sylw at ardaloedd tywyll yn y dref yn Heol Ffrydan ac wrth y Co-op.

6. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Diolchwyd i Tony Parry am fod yn gyswllt dibynnol.

7. **Is**-**bwyllgorau:** Derbyniwyd un anfoneb a disgwylir un arall.

8. **Materion Cynllunio**: NP5/53/LB223B Caniatâd Adeilad Rhestredig i ddymchwel rhan o'r estyniad unllawr presennol ac adeilad allanol, ail-adeiladu ac ymgorffori'r adeilad allanol yn gegin, gosod drysau gwydr, to brig llechi newydd gyda ffenestr to, Ail agor hen ffenestr a dymchwel waliau mewnol. Dymchwel rhan o'r estyniad a'r cwt glo yn y cefn ac adeiladu estyniad unllawr Goleufan, 16 Ffrydan Road, Bala, LL23 7RT - Cymeradwywyd.

9. **Materion Cyllid:**

   **i.** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.

   **ii.** Derbyniwyd Adroddiad yr Archwilydd Allanol. Roedd siom o ddarllen sylw'r Archwilydd yn sôn am ddyddiad cymeradwyo'r Archwiliad Mewnol (3/6/21 a Mehefin 2021) oherwydd nid oedd yn ffeithiol gywir. Cyfarwyddwyd y Clerc i anfon at yr archwilydd am hyn.

   **iii.** Cymeradwywyd yr anfonebau i'w talu: rhent Canolfan Henblas (£228); nwyddau Nadolig o Siop Kel (£100); Cyflog; glanhau llochesi – mis Ionawr.

   iv. Paratowyd papur yn gwahodd ceisiadau am gefnogaeth ariannol a rhannwyd hwn i'r Cynghorwyr. Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau yn y cyfarfod nesaf. (*Os bydd cais yn cael ei wrthod, bydd y manylion banc yn cael eu dychwelyd, ond cafwyd sicrwydd ei bod o fewn y gyfraith diogelu data i dderbyn manylion banc ar gyfer talu mewn i gyfrifon.*)

10. **Gohebiaeth:** *Yn cynnwys:*

    i. Ymgynghoriad Deddf Llywodraeth Leol 2022: rhoddodd y Clerc arweiniad ar y canllawiau statudol i hwn. Awgrymwyd y gellid gosod Adroddiad Blynyddol y Maer yn y Llyfrgell, yn yr ysgol, yn y caffis.

    ii. Dŵr Cymru - darllenwyd diweddariad parthed Llyn Celyn.

    iii. Cyngor Gwynedd – derbyniwyd rhybudd cau Heol Tegid ar 14/2/22.



ARWYDDWYD........................................................(MAER) / / ......................................(CLERC)

iv. Cyngor Gwynedd – derbyniwyd neges am uwchraddio llochesi bws yn Y Bala. Nid oedd y ffeithiau a'r safleoedd yn gywir yn y neges a chytunwyd i wahodd y Swyddogion i'n cyfarfod ar y safleoedd yn Y Bala. Nodwyd fod goblygiadau sylweddol i gyllideb Cyngor Tref Y Bala i lanhau a chael yswiriant ar 5 lloches.
v. Cyngor Gwynedd – Ardal Ni – derbyniwyd adroddiad. Cymunedau Mentrus: mae Partneriaeth Penllyn wedi bod yn llwyddiannus gyda'r grant hwn.
vi. Derbyniwyd diolch gan Eisteddfod yr Urdd a Chanolfan y Plase (Cyfraniad 2020-21)
vii. Nodwyd derbyn llythyr am wardeiniaid traffig yn y dref, ond nid yw'n fater sydd o dan gylch gorchwyl y Cyngor Tref.
viii. Derbyniwyd sylw oddi wrth Byd Mary Jones am barcio anghyfrifol yng nghyffiniau'r eglwys; atebwyd nad yw hyn o dan gylch gorchwyl y Cyngor Tref a rhoddwyd manylion asiantaethau perthnasol iddynt.

**11. Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr am lwyddiant Partneriaeth Penllyn i gael grant Cymunedau Mentrus. Comisiynwyd adroddiad annibynnol ar effaith twristiaeth ar yr ardal ond nid oedd aelodau'r Bala wedi gallu bod yn bresennol pan drafodwyd yr adroddiad terfynol.

12. **Asedau'r Cyngor:** Derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands ar eu cyflwr. Cytunwyd i gynnig y glanhawr lloches i glirio'r tyfiant ar do un lloches am £30 lloches. Diolchwyd i John C Williams am osod baneri erbyn dydd Gŵyl Dewi, ac i drefnu trwsio un faner. Cytunwyd i gyfrannu £10 at elusen o ganlyniad i'r gwaith hwn.

13. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref**

i. Derbyniwyd cais am osod plac ar fainc. Yn y gorffennol mae rhai teuluoedd wedi prynu mainc a gosod plac arni. Mae'r Cyngor yn y gorffennol wedi gwrthod gosod placiau ar eiddo'r Cyngor. Yn yr achos diweddaraf a drafodwyd, awgrymodd y Cyngor fod ymgeisydd yn cysylltu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a gofyn am ganiatâd i roi plac ar goeden.
ii. Cyflwr y ffordd gyferbyn a Ffordd y Gerddi wrth y Grîn – addawodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan dynnu sylw'r Adran Priffyrdd at y broblem.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 3/3/22 Canolfan Henblas am 7.00pm

*Amser gorffen: 9.00pm*



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)